



Freepik



Nid yw ffoi rhag rhyfel yn drosedd

Yn ôl UNHCR, mae mwy na 100 miliwn o bobl yn y byd a orfodwyd i adael eu cartrefi oherwydd rhyfel, erledigaeth neu droseddau yn erbyn hawliau dynol. Mae ffoaduriaid yn haeddu cael eu croesawu gan eu cyd-ddyn. Nid ydynt yn haeddu gelyniaeth, eu hallgludo, neu eu tagio fel troseddwyd. Cyflawnir y troseddau gwirioneddol gan lywodraethau sy'n bomio gwledydd pellennig, yn arteithio, neu'n gwerthu arfau i unbeniaid. Y nhw ddylai gael eu dwyn i gyfrif.

BRUCE KENT 22 Mehefin 1929 – 8 Mehefin 2022



Bruce Kent (canol) gyda Ray Davies a Jon Plumpton.

Anrhydedd i mi, fel Cadeirydd CND Cymru, yw talu teyrnged ar ran ein haelodau i'r hynod Bruce Kent. Mae ei gyfraniad i CND a'r mudiad heddwch yn anfesuradwy. Yn siaradwr ysbrydoledig a phwerus, roddodd ganmoliaeth uchel i Heddwch, y gall CND Cymru fod yn haeddiannol falch ohono. Efallai mai ein teyrnged fwyaf iddo fydd i bob un ohonom yn awr aildatgan ein hymrwymiad i ddarfogi niwclear ac i heddwch.

JILL EVANS

• Croeso nôl i Geredigion ac i eisteddfodau real, nid rhithwir. Bydd Tregaron o'r diwedd yn croesawu'r Brifwyl o'r 30 Gorffennaf i'r 6 Awst, a bydd y Babell Heddwch yno ar y Maes fel erioed. Galwch heibio, da chi, i ymuno ag CND Cymru – ac i helpu os medrwch! Gobeithio y bydd y rhifyn hwn o *Heddwch* yn ennyn dadl yn y cyfnod cythryblus hwn, yn ysbryd yr AS Henry Richard (1812-1888) a aned yn Nhregaron. Byddwn hefyd yn cofio Diwrnod Hiroshima ar Awst 6.

• Dydy Covid ddim ar ben o bell ffordd, gydag amrywiadau newydd, os llai eithafol, yn rhemp wrth i ni fynd i'r wasg. Mae angen gofal a hyd, ac angen atgoffa'r llywodraeth

hon y dylem ddal i gefnogi nyrsys, gofawlyr a gweithwyr rheng-flaen eraill yn hytrach na gwario biliynau ar longau tanfor Trident a thaflegrau niwclear. Nyrsys nid Niwcs!

• Yn y rhifyn hwn o *Heddwch* edrychwn ar erchyllterau rhyfel yn *Wcráin* (t3) ac ar densiynau cynyddol ledled y byd, *NATO a'r Rhyfel Oer newydd* (t6). Unwaith eto, mae Prydain i gael ei defnyddio fel llong gludo awyrennau bomio'r UD, gan arwain at brotestiadau ger 'RAF' Lakenheath (t7).

Ar nodyn mwy cadarnhaol, adroddwn o *Fienna* (tt4-5) ar gyfarfod cyntaf gwledydd sy'n rhan o'r TPNW, sef cytundeb gwahardd niwclear byd-eang y CU, a arwyddwyd bellach gan 86 o wledydd, a'i gadarnhau

gan 66. Pleidleisiwyd o blaid y cytundeb gan y Senedd a chan gynghorau yn cynnwys Gwynedd, Dinas Bangor, Nefyn, a Merthyr.

Bwriwn olwg sgeptigol ar brojectau pŵer niwclear yng Nghymru (tt8-9). Y dyddiau hyn caiff y cysylltiadau rhwng sectorau sifil a milwrol y diwydiant niwclear eu cydnabod yn agored. Adroddwn ar *daith y Gymru Ddi-Niwclear yn 40 a t10*, a chael ein hysbrydoli gan orchestion *Tangnefeddwyr Ifanc Cymru a'r Urdd* (t11). Ceir crynodeb o *Newyddion Cymru*, yn cynnwys cymorth i ffoaduriaid, ar *tt12-13*. Ceir adolygiad o lyfr ar *tt. 14-15* a theyrngedau i'r diweddar **Cen Llwyd** a **Bruce Kent**.

RHYFEL A HEDDWCH YN WCRÁIN

Taniodd ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror 2022 ryfel diymatal, sy'n dal i rygnu ymlaen heb derfyn mewn golwg. Ni waeth beth a symbylodd y gwrthdaro hwn, mae'r ffeithiau ar lawr gwlad yn giaidd.

Yn 2022 mae blociau fflatiau, ysgolion a theatrau Wcráin yn cael eu pwnio i ebargofiant bob dydd, yn groes i Gonfensiynau Genefa. Mae cymaint â 7 miliwn o Wcraniaid o bosib wedi'u dadleoli o fewn y wlad, a mwy na 6 miliwn wedi ffoi i wledydd eraill, yn cynnwys Cymru. Cofnodwyd mwy na 10,000 o farwolaethau yn swyddogol, ond mae pawb yn cytuno bod y ffigurau go iawn yn llawer uwch: mae'n amhosibl gwneud cyfrif cywir.

Peryglon niwclear a byd-eang

Mae Rwsia wedi bygwth defnyddio arfau niwclear, ac mae lleoliadau 15 adweithydd niwclear sifil Wcráin yn destun pryder mawr. Ni fu erioed ddadl gliriach o blaid tynnu arfau niwclear allan o theatrau gwrthdaro. Mae effaith y rhyfel a sancsiynau ar yr economi fyd-eang yn ddifrifol, ac mae'r anallu i

allforio grawn o borthladdoedd y Môr Du yn fygythiad i lawer o wledydd sydd mewn perygl o ddioddef newyn. Mae terfyn buan i'r rhyfel hwn yn hanfodol.

Arfau, enillwyr a collwyr

Ymateb cynghreiriaid Wcráin oedd ehangu NATO ymhellach ac arllwys arian ac arfau, gwerth biliynau o ddoleri i mewn i'r wlad. Mae llywodraeth San Steffan wedi gorchymyn i lywodraethau Cymru a'r Alban ddargyfeirio cyfanswm o £95 miliwn o'u cyllidebau domestig datganoledig i'r achos. Mae Biden a Johnson yn addo 'bod yno tan y diwedd' nes y sicrhewr buddugoliaeth i Wcráin.

Mae'n annoeth dwysáu rhyfel heb fod ag unrhyw unrhyw strategaeth ymadael, fel y dangosodd Fietnam. Yn y pen draw, daw pob rhyfel i ben â chadoediad a chytundeb. Gallai rhyfel hirfaith ledu fel tân gwyllt ac arwain at ddefnyddio

arfau niwclear, gan ddileu unrhyw fudd i bobl Wcráin. Fodd bynnag, os sicrhewr buddugoliaeth lwyr i Wcráin, bydd yn rhaid i'r wlad fyw o hyd gyda chymydog dicllon a'r posiblirwydd o wrthdaro pellach.

Pa fath o heddwch?

Mae'r hawl i ymreolaeth wedi'i ymgorffori yn Siarter y CU. Mae Wcráin yn haeddu heddwch cyfiawn, ond hefyd un sicr a chynaliadwy. Siawns na fydd yn y diwedd yn rhaid seilio hynny ar undod blaengar rhwng pobloedd, gan warantu democratiaeth trwy gytundeb heddwch i Ewrop gyfan, yn cynnwys yr holl gyn-wledydd Sofietaidd – yn hytrach na thrwy gynghrair filwrol dan arweiniad yr UD, yn ailadrodd atebion aflwyddiannus y Rhyfel Oer diwethaf.

PHILIP STEELE



Palinchak

Wcráin heddiw: rhyfela trwy warchae yn yr 21ain ganrif

SUT I SICRHAU GWAHARDDIAD NIWCLEAR BYD-EANG

Wrth i ryfel ffrwydro yn Ewrop, gwaharddiad byd-eang ar arfau niwclear yw'r brif flaenoriaeth bellach. Mae **THOMAS PITT** yn croesawu penderfyniadau pwysig Wythnos y Gwaharddiad Niwclear yn Fienna.

Mae yna adegau pan y teimla fel pe bai gweithredwyr o blaid diarfogi yn wynebu ton ar ôl ton o newyddion drwg, wrth i'r byd hyrddio o'r naill argyfwng i'r llall. Newid i'w groesawu, felly, yw gallu adrodd ar ddatblygiad cadarnhaol ar ffurf Cyfarfod Cyntaf y Gwledydd Cyfrannog (CGC1) i'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW), a gynhaliwyd yn Fienna rhwng ar y 21-23 Mehefin 2022. Mae'r ffaith bod y

cyfarfod wedi'i gynnal o gwbl yn achos dathlu ynddo'i hun. Fel y bydd y rhai sydd wedi dilyn datblygiad y TPNW yn gwybod, aeth llawer iawn o waith caled i mewn i'r Cytundeb, o'r esgor hyd at ei fabwysiadu yn y Cenhedloedd Unedig yn 2017, nes iddo ddod i rym y llynedd. CGC1 oedd penllanw'r ymdrechion hyn.

Yn ogystal, mae'r pandemig sy'n parhau yn her ychwanegol i drefnu unrhyw gyfarfod rhyngwladol o'r fath ac mae'n ollyngdod na ddioddefodd CGC1 yr un tynged â 10fed Cynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (NPT), a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 2020 ond sydd yn dal heb ddigwydd ar ôl sawl gohiriad.

Ieuentid dros waharddiad byd-eang

Ar 21 Mehefin, cynhaliwyd 'CGC Ieuentid' ochr yn ochr â'r brif gynhadledd (a drefnwyd gan y grŵp ymgyrchu rhyngwladol newydd ei sefydlu, Ieuentid dros TPNW), gan ddod ag ymgyrchwyr ifanc o bedwar ban ynghyd i rannu



ICAN

Cefnogwyr ICAN yn ymgynnull yn Fienna

profiadau ac adeiladu mudiad diarfogi niwclear byd-eang. Yn anffodus, oherwydd canslo nifer o hediadau o Faes Awyr Heathrow, methais y cyfarfod, ond pleser mawr oedd cwrdd â llawer o'r bobl ysbrydoledig hyn yn ystod gweddill yr wythnos.

CGC1 yn cytuno ar ei strategaeth

Yn CGC1 ei hun, cytunwyd ar nifer o gamau pwysig yn ymwneud â gweithredu'r TPNW. Roedd y rhain yn cynnwys: pennu terfyn amser o 10 mlynedd ar gyfer dileu arfau niwclear ar wladwriaethau ag arfau niwclear sy'n ymuno â'r Cytundeb, a 90 diwrnod ar gyfer eu symud o wledydd lle maent wedi eu lleoli; mesurau i gynorthwyo dioddefwyr ac adfer yr amgylchedd; sefydlu Grŵp Cyngori Gwyddonol i ddarparu adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiadau yn ymwneud ag arfau niwclear; ac ymrwymadau ar gyffredinol i'r Cytundeb er mwyn darbwyllo mwy o wledydd i ymuno.

>>>>>DYSGU MWY

• Dogfennau allweddol

<https://reachingcriticalwill.org/disarmament-fora/nuclear-weapon-ban/1msp/documents>

• Datganiadau

<https://reachingcriticalwill.org/disarmament-fora/nuclear-weapon-ban/1msp/statements>

Ennill cefnogaeth

Ar y pwnc hwn, calonogol oedd gweld 34 o wledydd yn bresennol fel sylwedyddion, gyda nifer yn mynegi bwriad i gadarnhau'r Cytundeb. Ymhlith y sylwedyddion roedd pedwar aelod o NATO (Gwlad Belg, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Norwy), ynghyd â dau ymgeisydd am aelodaeth, sef y Ffindir a Sweden. Roedd naws eu cyfraniadau yn fwy cymysg, gyda rhai, megis yr Almaen, yn pwysleisio agweddau cadarnhaol y TPNW a'u hawydd i gydweithio â'r gwledydd sy'n rhan ohono, er iddynt bwysleisio eu barn y byddai cadw at y Cytundeb yn anghydnaws â'u rhwymedigaethau NATO (barn na chytunai pob sylwedydd â hi).

Meini tramgwydd a phroblemau

Roedd eraill, fel Sweden, yn siomedig o negyddol, gan ganolbwyntio ar yr hyn a welant fel diffygion y Cytundeb o ran y diffyg eglurder canfyddedig ynghylch ei drefn wirio â'r diffyg cefnogaeth gan wledydd ag arfau niwclear. Mynegodd Sweden ac eraill bryderon hefyd ynglŷn â pherthynas y TPNW â'r CAY, er mawr rwestredigaeth i eiriolwyr dros y TPNW, gan y rhoddwyd pwyslais arbennig ar sicrhau bod y ddau Gytundeb yn gydnaws. Datblygiad i'w groesawu felly oedd bod y Gwledydd Cyfrannog wedi cytuno i benodi hwylusydd anffurfiol i wella'r cydweithrediad rhwng y ddau gytundeb, er mwyn pwysleisio'r pwynt hwn i amheuwyr y TPNW.

Ymhlith y trafodaethau technegol, roedd yna hefyd eiliadau a wnaeth argraff emosiynol, yn

enwedig cyfraniad twymgalon Teburoro Tito, cyn-Arlywydd Kiribati a Chynrychiolydd Parhaol y wlad i'r CU bellach, yn galw ar bobl o bob cenedl i gydweithio, gan hyd yn oed dorri allan i ganu ar un adeg i ddatgan, 'Un teulu mawr, hapus ydyn ni, o blaid heddwch, cariad a harmoni'. Bu Tito hefyd yn cadeirio un o'r lluo o sgil-gyfarfodydd rhagorol, un a oedd yn cynnwys gweithredwyr o nifer o Ynysoedd y Môr Tawel a fu'n trafod effeithiau niweidiol profion niwclear ar eu cymunedau sy'n dal i gael eu teimlo hyd heddiw.


Y ffordd ymlaen

Yn derfynol, cytunwyd i gynnal Cyfarfod nesaf y Gwledydd Cyfrannog o'r 27 Tachwedd i'r 1 Rhagfyr 2023 yn Efrog Newydd. Mae llwyth o waith i'w wneud o hyd a doedd neb a oedd yn bresennol o dan unrhyw gamargraff parthed anhawster gwireddu nod terfynol y Cytundeb o ddileu arfau niwclear yn llwyr. Fodd bynnag, mae gwir ymdeimlad o fagu momentwm o amgylch y TPNW, er gwaethaf y rhwystrau lu y mae'n eu hwynebu a'r sefyllfa ryngwladol ansefydlog. Chwedl Llywydd CGCI, Alexander Kmentt, wrth gloi, 'lle mae pob dangosydd ar arfau niwclear yn pwyntio i'r cyfeiriad anghywir, rydym ni'n pwyntio'n amlwg i'r cyfeiriad iawn'. Ni allwn ond gobeithio.

***"Mae arfau niwclear yn bla
byd-eang.
Gadewch i ni ddileu'r arfau hyn
cyn iddyn nhw ein dileu ni."***

ANTÓNIO GUTERRES

*Ysgrifennydd Cyffredinol
y Cenhedloedd Unedig*



MILITAREIDDIO BYD-EANG

A oes yna enw torfol ar gyfer cynulliad o 'hebogiaid' rhyfelgarol? Byddai'n sicr yn wir am uwch-gynhadledd NATO ym Madrid fis Mehefin, a gadarnhaodd uchelgais byd-eang NATO.

Cafodd rhyfel Wcráin ei ddefnyddio i gyfiawnhau casgliad o fentrau polisi rhyngwladol sydd â'r bwriad o hybu pŵer 'Gorllewinol' o dan arweinyddiad yr Unol Daleithiau. Fodd bynnag, roedd llawer o'r newidiadau polisi hyn eisoes ar y gweill gan lywodraeth Biden cyn ymosodiad milain Putin ar Wcráin.

Ehangu NATO

Mae dychwelyd at feddylfryd Rhyfel Oer yn cynnwys ymrwymiad sylfaenol NATO i fraw-ataliaeth niwclear, na fu erioed yn ffordd effeithiol o feithrin heddwch. Nid yw'n atal rhyfeloedd, dim ond porthi'r mentro rhyfygus a chynyddu'r perygl o ddinistri'r byd o ganlyniad i 'ddefnydd cyntaf' neu gamgymeriad damweiniol. Mae dilyn y polisi hwn mewn argyfwng hinsawdd a chwalfa economaidd hyd yn oed yn fwy anfoesol a pheryglus – er bydd y corfforaethau milwrol-diwydiannol yn siŵr o wneud elw braf. Mae ehangu NATO

ymhellach i gynnwys Sweden a'r Ffindir yn newid cydbwysedd pŵer yn Ewrop. Mae hyd yn oed Democratiaid Cymdeithasol yr Almaen, penseiri gwreiddiol *Entspannung* neu *détente* yn y Rhyfel Oer, bellach yn cefnogi polisi newydd o gefnogaeth filwrol, fel eu partneriaid yn y glymblaid, y Gwyrddion. Ym Mhrydain, mae llywodraeth Frecsitaidd yn ddigon hapus i ildio sofraniaeth i UDA mewn materion milwrol. Bydd hyn yn effeithio arnom ni yma yng Nghymru hefyd.

Y Môr Tawel ddim mor dawel bellach

Tra bod y byd yn ymgodymu ag erchyllterau Wcráin, yr ochr draw iddo mae tensiwn yn cynyddu gyda China ynghylch fflachbwynt posibl Taiwan. Yn Japan, galwodd y diweddar gyn-Brif Weinidog, Shinzo Abe, am leoli taflegrau niwclear yr UD yn y wlad, cyn iddo gael ei ladd ar 6 Gorffennaf. Mynegodd Ysgrifennydd Tramor y DU Liz Truss barodrydd i

arfogi Taiwan yn erbyn China. O 29 Mehefin i 4 Awst 2022 bydd 26 o wledydd, yn cynnwys y DU, a 25,000 o luoedd arfog, dan arweiniad Trydedd Llynges yr UD yn cyfranogi yn ymarfer morol RIMPAC (Min y Môr Tawel). Mae'n ddigon posibl mai'r cwbl a wna hyn oll fydd atgyfnerthu'r gefnogaeth i arlywydd awdurdodaidd China, Xi Jinping, sy'n wynebu aflonyddwch mewnol yn y Blaid Gomiwnyddol.

Yn Awstralia, mae'n bosibl y gall cwmp y Prif Weinidog Scott Morrison, a drechwyd gan Anthony Albanese o'r Blaid Lafur, un sydd wedi mynegi teimladau gwrth-niwclear yn y gorffennol, arwain at ailasesu cytundeb llyngesol AUKUS (Awstralia-DU-UD). Efallai na wna Albanese ddim byd mawr, ond y mae yn y gorffennol wedi cefnogi'r cytundeb gwahardd byd-eang (TPNW), sydd â chefnogaeth gyhoeddus eang yn Awstralia.

PHILIP STEELE



Llenwyd strydoedd Madrid gan brotestiadau mawr yn erbyn NATO ym mis Mehefin

PROTESTIO YN DYCHWELYD I LAKENHEATH

Mae hanes fel pe bai'n ailadrodd ei hun ar y foment. Wrth i CND Cymru goffáu ei ran yn ymgynghrch Comin Greenham 40 mlynedd yn ôl, dylai newyddion diweddar o Lakenheath chwalu unrhyw amheuo bellach bod Rhyfel Oer newydd eisoes ar y gweill.

Ymddengys bod niwcs yr UD yn dychwelyd i 'RAF' Leakenheath yn Suffolk, cartref 48fed Adain Ymladd Awyrlu'r UD (arwyddair: 'Ensuring Freedom's Future'), ar ôl absenoldeb o 14 mlynedd. Mae bynceri'r ganolfan ar gyfer storio ergydion niwclear yn cael eu huwchraddio ochr yn ochr â safleoedd mewn pum gwlad NATO arall, adnewyddiad hirdymor sydd wedi costio dros \$384 miliwn. Yn uwchgyhadledd NATO ym Madrid ym mis Mehefin eleni, cyhoeddodd UDA y byddai'n anfon dwy sgwadron o awyrennau bomio llechwraidd F-35 i'w lleoli ym Mhrydain. Bydd cynyddu'r risg

niwclear fel hyn ond yn ei gwneud hi'n anos sicrhau dyfodol heddychlon i Ewrop, ac yn rhoi cenhedloedd y DU yn y rheng flaen. Bydd y brotest nesaf yn Lakenheath ddydd Sadwrn 17 Medi.

- Yn Menwith Hill yn Swydd Efrog, ddaeth y Rhyfel Oer byth i ben. Mae'r pencadlys ysbïwyr, gyda'i gromenni gwyn tebyg i beli golff, yn cael ei redeg gan Asiantaeth Diogelwch Cenedlaethol yr UD a'i gynorthwyo gan GCHQ. Bu'n darged i brotestwyr ers 40 mlynedd neu fwy, a chynhaliwyd ei Ddydd Annibyniaeth oddi wrth America blyneddol eleni ar 2 Gorffennaf.



"Falle na chlywsoch chi mohonon ni y tro cynta? Na i niwcs yr UD!"

NI NÔL!

Ddydd Sadwrn 21 Mai 2022, ymgasglodd tua 350 o brotestwyr y tu allan i RAF Lakenheath, Suffolk i brotestio yn erbyn y posibilrwydd o leoli ergydion niwclear yr UD ar y maes awyr.

Roedd SAM FAIRBROTHER yno gydag CND ieuentid a Myfyrwyr.

Galwyd y gwrthdystiad hwn gan CND yn dilyn darganfyddiad Hans Kristensen, y Project Gwybodaeth Niwclear, bod y maes awyr yn mynd i fod yn rhan o strategaeth filwrol newydd NATO, ynghyd â rhai eraill yn yr Eidal, yr Almaen, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a Thwrci. Mae jetiau ymladd F-35B wedi'u lleoli yno ers hydref 2021. Maent yn gallu cludo ergydion niwclear B-61.12, sy'n cael eu cynhyrchu yn UDA ar hyn o bryd.

Clywodd y protestwyr areithiau gan aelodau o Grŵp Gweithredu Lakenheath, cynghorwyr Suffolk, Ewrop Ddi-Niwclear, Sefydliad Heddwch Bertrand Russell, Llafur a'r blaid Werdd. Yn ddiabynnol ar gadarnhad pellach am arfau sydd neu a fydd yn cael eu lleoli yno, fe allai RAF Lakenheath fynd yn safle protestio rheolaidd dros y blynnyddoedd sydd i ddod.

SAN STEFFAN YN HYBU'R NIWCS NEWYDD

Trefnodd aelodau o gymuned Llanfechell, un o'r pentrefi agosaf at y Wylfa, gyfarfod ddydd Gwener Mehefin 3 lle roedd yr amgylcheddwr blaenllaw Tom Burke yn annerch. Mae Tom yn gyn-gyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear ac yn rhedeg y felin drafod amgylcheddol ryngwladol, E3G. Daeth cynulleidfda dda ynghyd yng ngardd Siop a Chaffi Mechell i gael clywed dadansoddiad treiddgar Tom o 'strategaeth' diogelwch ynni Johnson.

Pwysleisiodd mai'r geiriau pwysicaf yn natganiad y llywodraeth oedd 'yn ddibynnol ar werth am arian a'r adolygiad gwario'.

Hynny yw, mae bod y Trysorlys yn mynnu cynnwys y frawddeg honno yn profi eu bod yn ddrwgdybus o hyd o gost aruthrol ynni niwclear.

Rhestrodd Tom y broses y byddai'n rhaid i Rolls Royce fynd drwyddi i gael 16 archeb angenrheidiol i godi adweithyddion modiwlaid: "Y rheswm am hyn yw er mwyn iddynt fod yn fodiwlaid, mae angen i chi adeiladu ffatri yn gartref i linell gynhyrchu ar gyfer y modiwlau. Ond i godi ffatri fawr a drud bydd

angen i chi gael safleoedd. I gael safleoedd bydd angen caniatâd cynllunio arnoch chi. I gael caniatâd cynllunio bydd angen cymeradwyaeth reoleiddiol arnoch chi oddi wrth y rheoleiddiwr niwclear. I gael cymeradwyaeth reoleiddiol ar gyfer cynllun newydd, bydd angen i chi godi un er mwyn i chi wybod y bydd eich SMR yn gweithredu'n ddiogel. Ond i adeiladu adweithydd sydd ddim yn fach ond yn fodiwlaid bydd angen ffatri arnoch chi."

Credai Tom nad oes gan y llywodraeth Doriaidd y gallu i fynd trwy'r holl gamau angenrheidiol hyn. Roedd o'r farn hefyd fod problemau mawr ynglŷn â chost adweithydd

AP1000 Westinghouse, a chyfeiriodd at sut aeth Toshiba Westinghouse i'r wal yn ariannol yn 2018 oherwydd y cynnydd enfawr mewn costau wrth geisio adeiladu AP1000 ar safle V.C. Summer yn Ne Carolina. Cyfeiriodd hefyd at broblemau tebyg o fynd dros gyllideb ac amserlen ar safle Vogtle yn nhalaith Georgia lle mae Westinghouse yn ceisio codi AP1000 arall.

Ei neges derfynol oedd y dylem barhau i ymgyrchu a thanlinellu'r holl broblemau ynglŷn a chodi adweithyddion niwclear mawr traddodiadol neu rai modiwlaid.

DYLAN MORGAN

Digwyddiad cyhoeddus mawr nesaf PAWB fydd cynhadledd genedlaethol ar y cyd â CADNO, CND Cymru, Cyngrair Wrth-niwclear Cymru, Cymdeithas yr Iaith, Beyond Nuclear International a'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear ddydd Sadwrn, Gorffennaf 23 yn Llety Arall, Caernarfon. Ymgynnull ar y Maes am 10.00 cyn y gynhadledd yn Llety Arall.

Bydd yn ddigwyddiad â chynulleidfda yn yr adeilad ac ar y we hefyd.

PAM RYDYN NI'N CERDDED O DRAWSFYNYDD I'R WYLFA

Sul 4 – Sadwrn 10 Medi 2022

Bydd aelodau o garfan ieuenctid CND Cymru yn cychwyn ar ymdaith 7 diwrnod o Orsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd yng Ngwynedd i Orsaf Bŵer Niwclear Wylfa ar Ynys Môn ym mis Medi, mewn protest yn erbyn penderfyniad llywodraeth San Steffan i leoli Adweithyddion Niwclear Modiwlaid Bach (SMRs) ar y safleoedd a gomisiynir.

Daeth y penderfyniad hwn law yn llaw â'r rhwystredigaeth gynyddol a deimlir gan bobl ifanc am ymgais y llywodraeth i 'wyrddgalchu' ynni niwclear, a'i werthu fel ffurf o ynni glân, diogel, wedi'i gynhyrchu yn y DU, yng nghydestun argyfwng yr hinsawdd. Rydym ninnau'n

llawn mor bryderus am effeithiau trychinebus cloddio am wraniwm ar diroedd pobl frodorol yn Awstralia yn ogystal â pharthau deheuol y byd – heb sôn am y cysylltiadau rhwng pŵer niwclear, y fyddin ac arfau niwclear.



Osian Griffor



Mae'r bobl ifanc sydd wedi penderfynu ymdeithio yn erbyn adeiladu SMRs yn Nhrawsfynydd a Wylfa am i'w lleisiau gael eu clywed yn y trafodaethau a fydd yn darlunio'r dirwedd y bydd yn rhaid iddynt fyw ynddi yn y dyfodol. Maent yn mynnu gweld paratoadau ar gyfer dyfodol gwirioneddol wyrdd a creu swyddi na fydd yn dod ar draul iechyd gweithwyr a'u cymunedau, na'r amgylchedd. Ni all ynni niwclear esgor ar gyfiawnder hinsawdd.

BETHAN SIÂN

ACHUB ABER HAFREN

Daeth Adolygiad Barnwrol Achub Aber Hafren gerbron yr Uchel Lys yn Llundain ym mis Mawrth. Ein dadl oedd bod rhoi trwydded ddiwygiedig i ollwng tua 800,000 tonnall o waddod llygredig i wneud lle i system oeri dŵr yng ngorsaf bŵer niwclear Hinkley C yn anghyfreithlon.

Mae Aber Afon Hafren i fod â'r lefel uchaf o amddiffyniad morol rhyngwladol, ac eto mae Sefydliad Rheolaeth Forol Lloegr (MMO), i bob diben, wedi eithrio EdF rhag gwarchod

yr amgylchedd. Ond dyfarnodd y llys fod Hinkley C o 'bwys cenedlaethol', a bod hynny'n gwrthbwyso'r pryderon hyn gerbron y gyfraith. Diolch yn fawr i dros 1,400 o bobl a dalodd am yr achos llys. Mae'r frwydr yn parhau.

- Gallai mewnllif dŵr oeri newydd Hinkley ladd tua 500,000 o bysgod bob dydd y mae'n gweithredu. Mae EdF wedi gofyn am ganiatâd i hepgor yr Ataliad Pysgod Acwstig sy'n ofynnol gan ei drwydded. Da chi, llofnodwch y ddeiseb hon i'r Senedd:

<https://deisebau.senedd.cymru/deisebau/245194>

CIAN CIARÁN

YSBRYDOLIAETH Y GORFFENNOL – YSGOGIAD Y PRESENNOL

Mae arddangosfa deithiol CND Cymru, Y Gymru Ddi-Niwclear yn 40, eisoes wedi ymweld â Wrecsam, Llandudno, Bangor, Llanidloes, Llandrindod, Aberhonddu, Hwlfordd, Aberystwyth ac Abertawe. Diolch i bawb a helpodd i wneud i hyn ddigwydd – ac yn enwedig i'r rhai ohonoch sy'n parhau i ymgyrchu i gael eich Cyngor i fynd yn Gymuned 'Gwaharddiad Niwclear'.

MARY JONES

AR DAITH

Ceir gwybodaeth am yr ymgyrch yn <http://www.cndcymru.org>

30 Gorffennaf – 6 Awst

Eisteddfod Genedlaethol Tregaron

Brian Jones 01792 830330

brianjones@phonecoop.coop

8 - 15 Awst

Llyfrgell Aberdâr

10 Awst

1pm, cyfarfod gyda Beth Winter, AS Llafur Cwm Cynon.

Mary Winter

marywinter2@btinternet.com

Yn dal i'w cadarnhau

ar gyfer Medi/Hydref/
Tachwedd:

Pen-y-bont/Y Bontfaen

Pam Greenup 07703393008

pamgreenup3@gmail.com

Caerdydd

Sue Lent 07790962764

lentsusan93@gmail.com

Casnewydd

Mary Jones 07767495932

mary.jones17@outlook.com



Bethan Siân a Michael Freeman, Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth.



Jill Rolfe, Jane Terris, Judith Shaw a Pam Williams,
Caffi Hanging Gardens, Llanidloes.

Digwyddiad olaf y daith yn 2022 fydd y 6ed Rhagfyr yn y **Senedd**, o hanner dydd tan 1.15pm yn Adeilad Pen y Pier gyda Siaradwyr a Chaneuon Heddwch gan Gôr Cochion Caerdydd: dewch i ddangos eich cefnogaeth i'r TPNW: dewch â baneri!

DS Dilynr y digwyddiad yn y prynhawn gan gyfarfod **Fforwm Cymru** yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear am 1.30pm

EGIN GWYRDD AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r byd yn dywyll, ac mae sawl her anferth i'n 'heddych' bregus. Er gwaethaf popeth, fodd bynnag, mae egin newydd yng Nghymru sy'n rhoi gobaith inni am ddyfodol mwy heddychlon a chynaliadwy, meddai JANE HARRIES

Wedi dwy flynedd ar-lein, bydd Gwobrau Tangnefeddwyr Ifanc eleni, a drefnir ar y cyd gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) a Gŵyl Gerddorol Rhyngwladol Llangollen, yn digwydd wyneb-yn-wyneb unwaith eto. Ar 7 Gorffennaf dethlir nifer o blant a phobl ifanc am eu cyfraniadau creadigol a beirniadol fel ymgyrchwyr heddych, awduron, artistiaid, hyrwyddwyr hinsawdd a dinasyddion byd-eang.

Mae cwmmpas ymgeisiadau eleni wedi bod yn drawiadol. Mewn mwy na 60 o geisiadau, mae plant a phobl ifanc ledled Cymru wedi mynegi eu pryder am faterion yn amrywio o'r rhyfel yn Wcráin i driniaeth ffoaduriaid, o gydraddoldeb i fenywod a merched i'r argyfwng hinsawdd. Rydym yn ddiolchgar i'r holl staff ysgol a gwaith ieuencid sydd wedi annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan. Ysbrydolodd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd ar yr Argyfwng Hinsawdd nifer o geisiadau eleni.

Bu enghreifftiau nodedig hefyd o ddyfeisgarwch a menter pobl ifanc eu hunain: defnyddiodd grŵp o bobl ifanc yng Ngogledd Cymru gyfryngau cymdeithasol, ffilm a chyfweiliadau i fynd i'r afael â phroblem hiliaeth a throseddau casineb a sicrhau ei fod yn cael sylw yn eu hysgol a'u cymuned. Yn ne Cymru symblwyd criw bychan o bobl ifanc gan hanes y gwerysll ar gyfer ceiswyr lloches ym Mhenalun i drefnu ymgyrch yn canolbwyntio ar bwysigrwydd croesawu a dathlu ffoaduriaid, gan gynnwys trefnu cystadleuaeth poster i ysgolion a chreu murlun yn eu tref.



100
1922 - 2022

Neges Heddwch ac Ewyllys Da
Peace and Goodwill Message

Mae'r rhain yn enghreifftiau i'n hysbrydoli o bobl ifanc yn cymryd camau cadarnhaol fel dinasyddion byd-eang a thangnefeddwyr. Ar 7-8 Gorffennaf yn arbennig, anogir plant a phobl ifanc i ymweld ag Eisteddfod Llangollen a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau heddych, gan gynnwys gweithdai ar frwydro rhagfarn a stereoteipiau.

Ar 25-26 Gorffennaf caiff criw bach o bobl ifanc hyfforddiant yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd i'w paratoi ar gyfer eu swyddi fel Llysgenhadon Heddwch Ifanc. Wedi'i gyllido drwy Ddydd Gweddi Byd-eang y Menywod a WCIA, rhedir yr hyfforddiant gan Gymdeithas y Cymod a staff WCIA gyda mewnbwn gan wirfoddolwyr, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion. Bydd y Llysgenhadon Ifanc yn dysgu am dreftadaeth heddych gyfoethog Cymru ac am waith grwpiau heddych yng Nghymru heddiw

YMA, ACW



AC YM MHOBMAN

Profion arfau yng ngorllewin Cymru

Maes tanio hyfforddi milwrol yw MoD Aberporth a reolir gan Qinetiq. Mae'n profi arfau lansio-awyr a dronau milwrol. Am dair wythnos rhwng 6 a 24 Mehefin (dyddiau'r wythnos, 9am-4.30pm) cyhoeddodd orchymyn yn gwahardd pob llong, yn cynnwys cychod pysgota a chychod pleser, o'r rhan fwyaf o Fae Ceredigion, ardal eang o Fôr Iwerddon. Eglurodd llefarydd, 'mae gan yr arbrawf un o'r arwynebau olrhain diogelwch arfau mwyaf a ddefnyddiwn, sy'n golygu bod rhaid cadw'r rhan fwyaf o'r bae yn glir.'

Cyhuddo Thales o gyfrannu at droseddau rhyfel

Cyhuddwyd y cwmni arfau a seibr o Ffrainc, Thales, gan yr ECCHR (Canolfan Hawliau Cyfansoddiadol a Dynol Ewrop), a hefyd gan y grŵp annibynnol Mwatana dros Hawliau Dynol o Yemen, o gyfrannu at droseddau rhyfel yn y gwrthdaro yn Yemen. Mae gan Thales gysylltiadau agos gyda Llywodraeth

Cymru, Cyngor Blaenau Gwent a Phrifysgol De Cymru. Yn 2019 sefydlodd Thales y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Manteisio Digidol yng Nglyn-ebwy. Mae Thales hefyd yn cyflogi 60 o bobl yn Aberporth, canolfan ar gyfer datblygu dronau fel y Watchkeeper. Derbyniodd Thales filiynau o bunnoedd mewn arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.

Ssssh?! Dim llonydd i fyfyrwyr TGAU

Yn y blynyddoedd diwethaf chwalwyd heddwch Arfon, Dwyfor a Meirionnydd fwyfwy gan awyrennau jet hedfan-isel a'r awyrennau hyfforddi Texan T-1 diarhebol o swmllwyd, gan beri i ASau lleol Plaid Cymru gwyno wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn. Galwodd Dylan Minnice, pennaeth Ysgol Botwnnog, ar yr Awyrlu i beidio ag ymarfer yn ystod oriau ysgol ym mis arholiadau TGAU a Lefel A ei ddisgyblion. Honnodd y Weinyddiaeth Amddiffyn bod ei rhaglen hyfforddi yn hanfodol, ac na fydd newid i'r drefn bresennol.

O Drefyclo i Faslane

Cafodd symbol CND enfawr ei gyfarch gan gefnogwyr wrth iddo deithio trwy Drefyclo, Powys, ar 8 Mehefin. Roedd ar ei ffordd i Faslane, y ganolfan llongau tanfor niwclear ger Glasgow, lle bu cymaint o aelodau CND Cymru yn protestio dros y blynyddoedd.

Roedd yr achlysur hwn yn dathlu 40 mlwyddiant sefydlu Gwersyll Heddwch Faslane, ar y 12 Mehefin 1982. Byddai'r symbol yn symud ymlaen i ymuno â gwarchae llwyddiannus yn Coulport, Storfa Arfau'r Llynges ar Loch Long.

Prin y bydd hen lawiau Faslane yn poeni am Fesur Trefn Gyhoeddus newydd San Steffan, sy'n ail-becynnu diwygiadau i'r Mesur (y Ddeddf, yn awr) Heddlu, Troseddau, Dedfrydu

a Llysoedd a daflwyd allan gan Dŷ'r Arglwyddi. Mae Mesur newydd Priti Patel yn cynnig cosbau llym am ddulliau gweithredu uniongyrchol di-drais, fel 'ymgloi'.



Cyfarch symbol CND anferth yn Nhrefyclo, Powys, ar ei ffordd i brotestiadau yn Faslane a Coulport.

XR Heddwch

YMA, ACW



AC YM MHOBMAN

CND Cymru yn Glastonbury

Ym mis Mehefin ymddangosodd y symbol CND anferth, lliwiau'r-enfys yn Glastonbury hefyd (fel arfer, ochr yn ochr â Brian a Jan Jones, wrthi'n codi arian ar gyfer CND Cymru, a'r lluo o fynychwyr yr ŵyl o Gymru), gan ddychwelyd ar ôl dwy flynedd o gyfnod clo Covid. Cydweithiodd CND â threfnwyr yr ŵyl gyntaf yn ôl yn 1981, a chwarae rhan allweddol o ran ei throï'n ddigwyddiad enfawr heddiw.

Llywodraeth Cymru yn mynychu ffair arfau

Er gwaethaf addewidion yn y gorffennol gan lywodraeth Cymru y byddai'n adolygu'i pholisïau ynghylch ffairiau arfau, mae'n parhau i gefnogi digwyddiadau fel Sioe Awyr Ryngwladol Farnborough yn Lloegr (18–22 Gorffennaf 2022), marchnad gwerth biliynau o ddoleri ar gyfer y diwydiannau awyrfod, seibr ac amddiffyn. Yn y gorffennol, mae llywodraeth Cymru wedi cyfiawnhau ei hoffter o fuddsoddi milwrol am ei fod yn creu swyddi. Fodd bynnag, mae swyddi o'r fath yn codi cwestiynau moesol ac yn aml heb ddod â nemor ddim budd cynaliadwy i'r gymuned.

'Cut war not welfare'

Yn dilyn galwad gan Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru, teithiodd

protestwyr o bob rhan o Gymru i Lundain ar 18 Mehefin i brotestio am gostau byw sy'n codi i'r entrychion. Roedd miloedd ar yr orymdaith a drefnwyd gan yr Undebau Llafur, a gwelwyd lluo o blacardiau yn mynnu 'Nurses not Nukes' a 'Cut War not Welfare'.

Croesawu ffoaduriaid

Mae Clymblaid Ffoaduriaid Cymru yn gweithio gyda grwpiau ledled Cymru, fel Croeso Menai a Croeso Teifi. Mae'n 'Dinasoedd Noddfa' yn cynnwys Caerdydd, Abertawe, y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth, Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam, a Chymru oedd y 'genedl noddfa' gyntaf yn 2019. Cynhaliwyd digwyddiadau i gefnogi ffoaduriaid ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys teithiau cerdded,

cyngherddau a gweithgareddau codi arian. Bu prifysgolion, ysgolion a grwpiau ieuenctid oll wrthi'n croesawu ffoaduriaid.

Protest ehediad Rwanda

Mae triniaeth llywodraeth San Steffan o ffoaduriaid o Wcráin yn aml wedi bod yn fwiocrataidd neu'n esgeulus, tra bod ffoaduriaid o Afghanistan neu Syria sy'n ceisio croesi'r môr yn gorfod wynebu 'amgylchedd gelyniaethus' a gefnogir yn swyddogol. Bu cynllun Priti Patel i alltudio'r olaf o'r rhain i Rwanda yn destun her gyfreithiol gan Undeb PCS Mark Serwotka, Care4Calais, Detention Action ac Asylum Aid. Trefnodd Sefyll yn erbyn Hiliaeth brotest yn Abertawe. Cafodd yr ehediad cyntaf ei atal ar 14 Mehefin trwy waharddeb gan Lys Hawliau Dynol Ewrop.



Patrick Connellan

Ffoaduriaid o Gaerdydd ar drip i Ddinbych y Pysgod ym mis Mehefin. Dywed y neges yn y tywod, 'No Deportations to Rwanda'

Cen Llwyd

1952-2022

Fel ymgyrchydd iaith y cofiwn Cen Llwyd yn bennaf, ond nid dyn un mudiad mohono. Roedd yn bersonoliaeth gron, a'i weledigaeth oedd cael Cymru gyfiawn, heddychlon lle roedd pawb yn gydradd. Nid bathodyn neu sticer mo 'Heddwch' i Cen, ond cred angerddol. Roedd yn gas ganddo'r fasnach waed, ac roedd yn teimlo i'r byw yn erbyn cynhyrchu arfau.

Yn yr Wythdegau, peth cwbl naturiol i Cen oedd sefydlu CND Dyffryn Teifi. Bu'n ymweld â Greenham ac ymgyrchodd yn ddiplino yn erbyn y byncar niwcliar yng Nghaerfyrddin. Rhan o'i fywyd fel gweinidog oedd ymgyrchu yn ddi-drais.

I'r cof daw oes o bregethau a chyfraniadau i 'Munud i Feddwl' ar y radio a fu'n help aruthrol



Cymdeithas yr Iaith

i'r mudiad heddwch. Pan fyddai pethau'n ymddangos yn dywyll ambell waith, deuai brawddeg neu ddwy gan Cen i'n hatgoffa o'r gwir. Am dros hanner canrif, bu'n fflam gyson dawel yn tystio dros heddwch. Diolch amdano.

ANGHARAD TOMOS

ADOLYGIAD

THE HALF-LIFE OF SNAILS

Philippa Holloway

Gwasg Parthian 2022, 376tt
ISBN 978-1913640576, clawr
caled, £15.00

Mae hon yn nofel amserol, ryfeddol ei rhagwelediad. Drwy'r cysylltiadau a wneir rhwng y frwydr yn erbyn Wylfa B ar Ynys Môn, a thrychineb gynyddol Chernobyl, ar adeg y gwrthdaro gwleidyddol ac arfog yn Wcráin yn 2014 sy'n gefnlen i'r rhyfel presennol, rhydd bersbectif newydd i ni ar y byd. Fe'n gwahoddir i gwestiynu ein gwerthoedd a'n gweithredoedd ein hunain, trwy gyfrwng brwydr y prif gymeriad ifanc, benywaidd sy'n ymladd yn erbyn codi atomfa newydd ar safle ei fferm yng Nghymru.

Mae'r sgrifennu'n waith awdur sy'n gwylio ac yn gwrando. Mae'r llais naratif yn ddilys ac yn deimladwy, heb fod yn sentimental. Mae gennym ddigwyddiadau'n gwrthdaro: genedigaeth; canser; lledaeniad ymbelydredd, anweledig a marwol. Mae'r edefynnau hyn wedi'u gwau i mewn i dapestri dwys, gyda harddwch natur yn gyfeirbwynt a gwrthbwynt cyson. Mae'n amlwg bod Philippa Holloway wedi gwneud ei hymchwil.

Roedd y disgrifiadau manwl o sut beth yw bod mewn parth ymbelydrol yn atgof cryf o'm profiadau i fy hun yn ystod ymweliad â Fukushima, gyda llygredd ymbelydrol yn troi'n normalrwydd newydd.

Mae'n achosi i'r darlennydd weld yn glir pa mor gyflym y gall ein hamgylchedd gael ei drawsnewid. Yn fwyaf teimladwy, cawn ein hatgoffa hefyd am y bobl sydd wedi colli eu bywydau wrth geisio glanhau a diogelu ar ôl damweiniau niwclear. Beth ydyn ni'n ei wneud nawr i atal damweiniau o'r fath rhag digwydd eto? Wrth i mi sgrifennu, mae'r rhyfel yn Wcráin yn bygwth trychineb niwclear bellach.

Mae'r llyfr pwysig hwn yn sôn am ganlyniadau gweithredu, yn bersonol ac i'r byd. Mae'n cynnig y posibilrwydd o newid, a'r posibiliadau o weithredu, y mae cymaint o'u hangen yn awr.

LINDA ROGERS

Bruce Kent

1929-2022

Y tro cyntaf i mi gwrdd â Bruce oedd mewn gwrthdystiad CND yn y 1960au hwyr, y tu allan i Porton Down (canolfan ymchwil Arfau Cemegol a Biolegol Prydain). Nid oedd ar y pryd yn aelod o CND ond cawsai ei wahodd yno gan y Tad Simon Blake (Is-Gadeirydd CND ar y pryd) a sibryddodd wrthyf y byddai Bruce yn gwneud 'aelod da'.

Buan iawn y gwerthfawrogais garisma Bruce a'i ymrwymiad cynyddol i faterion ymgyrchu CND, er mai ei brif ymrwymiad o hyd yn ystod y blynyddoedd hynny oedd i Pax Christi a'i Eglwys. 'Monsignor' Bruce Kent ydoedd trwy gydol y 1970au hyd nes i'w weithgareddau CND achosi tensiynau.

Fe'i gwahoddais i gyd-sgrifennu pamffled ar gyfer CND Cristnogol ym 1974, a ail-gyhoeddwyd gennym sawl gwaith. Ond, yn ddiamau, y peth gorau wnes i erioed yn bersonol dros CND oedd gwahodd Bruce i ymuno â Chyngor CND, gyda'r bwriad o'i gael i gymryd fy lle fel Cadeirydd CND ar ôl deuddeg mis.

Anghofia'i byth mo'i gyfarfod Cyngor CND cyntaf. Ar wahân i Bruce, roeddem yn griw anffentrus ac efallai braidd yn ddiflas. Câ'r un pethau eu dweud yn mhob cyfarfod. Ddywedodd Bruce ddim gair nes i ni drafod y gwrthdystiad i ddod yn Faslane, ac yna trawsnewid y cyfarfod trwy gynnig cynnal dadreibiad (exorcism) i waredu'r ganolfan o'r drwg a oedd yn sicr yn trigo ynddi.

Cawsom fwy o gyhoeddusrwydd i'r gwrthdystiad hwnw nag a gafwyd ers degawd ac, yn naturiol, mwy o sylw i Bruce yn bwrw allan y cythreuliad na'n holl bosteri a'n sloganau celfydd eu geiriad.



Daeth Bruce ag agwedd wahanol ar faterion, a'n hysgwyd i weithredu. Yn sydyn roeddem yn newyddion eto. Rhaid cyfaddef y gwnaeth y cyrch newydd i leoli taflegrau Cruise a Pershing ymgyrchu CND yn fwy cyfamserol nag ydoedd ym 1966-76, ond roedd dull Bruce o fynd ati yn fwy bywiog nag ymdrechion ei ragflaenydd bob tro. Roedd yn codi ein calonnau.

A newidiodd Bruce yntau mewn ymateb i'r digwyddiadau a'r ymgyrchoedd. Pan gofiai ei agwedd at NATO yn wreiddiol, roedd yn fodlon gweld Prydain ddi-niwclear yn parhau i fod yn aelod – ond yn ddiweddarar cytunodd y dylem ymgyrchu i gael NATO (a phob cynghrair filwrol ag arfau niwclear) i roi'r gorau i arfau niwclear.

Roedd Bruce hefyd yn gefnogol i CND Cymru ac yn wybodus am ymgyrchu heddwch yng Nghymru – o Henry Richard hyd at Gôr Cochion Caerdydd. Tan yn ddiweddar iawn, derbyniai wahoddiadau i siarad ledled Cymru. Mawr yw'r golled ar ei ôl.

DR JOHN COX

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgychu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.



gwefan: www.cndcymru.org
e-bost: heddwch@cndcymru.org
trydar: @cndcymru
instagram: @cndcymru
gweplyfr: <https://www.facebook.com/cndcymru/>

CYSYLLTIADAU:

CADEIRYDD: Jill Evans [Rhondda]

jillrhondda@yahoo.co.uk

07803 902 401

YSGRIFENNYDD CENEDLAETHOL:

Bethan Siân [Aberystwyth]

bsj11@outlook.com

07933 791 207

TRYSORYDD AC AELODAETH:

Michael Freeman

michael.freeman9@btinternet.com

CND Cymru, 9 Rhiw Briallu,

Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: Jill Gough

jillegough@gmail.com

John Cox [Abersychan]

drjohncox121@gmail.com

01495 773495

Brian Jones [Pontardawe]

brian.jones@phonecoop.coop

01792 830330

Duncan Rees [Wrecsam]

Duncan.rees01@gmail.com

07534 975 461

Philip Steele [Ynys Môn]

phil_steele@btinternet.com

01248 490715

CYNRYCHIOLWYR I GYNGOR CND Y DU:

Linda Rogers [Ynys Môn], Bethan Siân

[Aberystwyth], Duncan Rees [Wrecsam]

HEDDWCH

Heddwch yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfog Niwclear yng Nghymru, CND Cymru. Nid yw'r cynnwys o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisiau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau, cyfraniadau neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

GOLYGYDD: Philip Steele

phil_steele@btinternet.com 01248 490715

CYFIEITHYDD: Siân Edwards

siandefynnog@hotmail.com

CYNHYRCHU A PHOSTIO: Redkite Print

jonplumpton1@gmail.com

Bydd y rhifyn nesaf **HEDDWCH** yn ymddangos ym Mis Rhagfyr 2022.

PAPUR NEU DDIGIDOL?

Danysgrifwyr: ydych chi am ddefnyddio llai o bapur? Cofiwch y gellwch dderbyn **Heddwch** ar ffurf electronig os yw'n well gennych, dim ond i chi hysbysu michael.freeman9@btinternet.com o'ch cyfeiriad ebost cyfredol.

YMWUNWCH Â CND CYMRU NAWR!

<https://www.cndcymru.org/take-part/membership>



Osian Griffiths